OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 143

# Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020

## RHAN 5

## DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG (CYMORTH I FYFYRWYR) (GRADDAU MEISTR ÔL-RADDEDIG) (CYMRU) 2019

### Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

**32.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019(**1**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 34 i 35.

### Diwygiadau i reoliad 31

**33.** Yn rheoliad 31 (swm y benthyciad cyfrannu at gostau), yn lle "£16,000" yn y ddau le y mae'n ymddangos rhodder "£16,489".

### Diwygiadau i reoliad 36

**34.** Yn rheoliad 36 (effaith dod, neu beidio â bod, yn garcharor cymwys)—

(a) ym mharagraff (8), yn lle "£16,000" rhodder "£16,489";

(b) ym mharagraff (10), yn lle "£16,000" rhodder "£16,489".

(**1**) O.S. 2019/895 (Cy. 161).